**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor y Blynyddoedd Cynnar, Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddPlant@senedd.cymru

Annwyl Gadeirydd,

**Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor y Blynyddoedd Cynnar, Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae'r meysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn gwbl greiddiol o safbwynt creu siaradwyr Cymraeg newydd a sicrhau cynnydd yn nefnydd yr iaith.

Mae'r Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg wedi nodi'n glir bod ehangu darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar, mewn addysg bellach ac uwch, a sicrhau llwybr iaith ac addysg barhaus a di-dor yn flaenoriaeth iddi. Mae'n hanfodol felly bod y Pwyllgor yn craffu ar sefyllfa'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith, gan gynnwys cyflawniad ymrwymiadau a thargedau sydd wedi'u cynnwys mewn gwahanol strategaethau a deddfwriaeth, a hefyd ymrwymiadau'r Llywodraeth newydd.

Yn ddiweddar cyhoeddais Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg sy'n amlygu pwysigrwydd y sector addysg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad manwl o sefyllfa'r Gymraeg yn y sector blynyddoedd cynnar, y sector addysg statudol a'r sector addysg drydyddol, ac yn amlygu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf.

Ar sail prif gasgliadau'r adroddiad rwyf yn argymell fod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y pum maes blaenoriaeth canlynol:

### 1. Ehangu gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai trochi plant yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl drwy ofal ac addysg gynnar yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Dylai'r pwyllgor graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

phartneriaid wrth ehangu gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan ganolbwyntio yn benodol ar:

- Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cynnig gofal plant am ddim i bob plentyn rhwng 9 mis a 4 mlwydd oed, ac, fel rhan o hyn, i gefnogi ac ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Digonolrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sefydlu darpariaeth newydd, cefnogi ac annog darparwyr i symud ar hyd continwwm ieithyddol, a pherthynas hyn â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol
- Y gweithlu blynyddoedd cynnar, gan gynnwys heriau recriwtio a chadw staff yn y sector, a chynlluniau ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, er enghraifft drwy hyfforddiant iaith Gymraeg fel  rhan o gyrsiau hyfforddiant a phrentisiaethau'r sector, ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## 2. Gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

Bydd gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn ystod y Senedd hon. Mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn craffu ar weithrediad y ddeddf arwyddocaol hon, gan sicrhau y bydd yn arwain at fwy o blant a phobl ifanc yn gadael y system addysg yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Yn y tymor byr dylai'r Pwyllgor graffu ar:

- Ddatblygiad y cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg a hefyd y ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol ar addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg.

Yn y tymor canolig dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar:

- Rôl awdurdodau lleol yn llunio a gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a rôl ysgolion yn llunio a gweithredu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Credwn fod gan y Pwyllgor rôl bwysig yn sicrhau bod y Ddeddf yn arwain at ysgolion, ac felly disgyblion, yn symud ar hyd continwwm ieithyddol. Rhan allweddol o gyflawni hyn fydd sicrhau bod y Ddeddf yn arwain at ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly bod cyfran cynyddol o ddisgyblion Cymru yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## 3. Pwysigrwydd creu gweithlu addysg ddwyieithog

Mae datganiad y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg ynghylch blaenoriaethau'r Llywodraeth yn nodi na all yr un system addysg lwyddo oni bai ein bod yn cefnogi'r gweithlu sy'n ei gwneud yn bosib. Mae'n dilyn felly na fydd modd cyflawni uchelgais Deddf y Gymraeg ac Addysg heb sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr addysg proffesiynol fydd yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Dylai'r pwyllgor felly flaenoriaethu craffu ar:

- Y camau mae Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog, sydd yn cwmpasu nid yn unig athrawon, ond hefyd

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cynorthwywyr, gweithwyr addysg proffesiynol, y gweithlu blynyddoedd cynnar a'r gweithlu ôl-16

- Rôl sefydliadau cenedlaethol fel y Cyngor Gweithlu Addysg, yr Athrofa, Dysgu, Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau cyfleoedd i'r gweithlu addysg ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth hyfforddi, ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## 4. Meysydd allweddol sy'n cefnogi neu'n llesteirio twf addysg Gymraeg

Tra mai sicrhau gweithlu addysg ddwyieithog yw'r allwedd bwysicaf ar gyfer galluogi cyflawniad amcanion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, mae nifer o faterion eraill sy'n hanfodol er mwyn cefnogi twf addysg Gymraeg a dwyieithog. Dylai'r Pwyllgor roi sylw penodol i'r Gymraeg wrth graffu ar:

- Y system gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys yn benodol cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cludiant a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gweithrediad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Gweithredu a chefnogi cyflwyno cwricwlwm i Gymru

## 5. Sicrhau dilyniant ieithyddol i addysg drydyddol, sgiliau a'r byd gwaith

Un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Gymraeg heddiw yw sicrhau bod pobl ifanc yn cadw gafael ar eu sgiliau ar ôl gadael y gyfundrefn addysg statudol. Y sector addysg drydyddol sy'n pontio addysg statudol a'r byd gwaith, ac mae cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gynnal a datblygu eu sgiliau wrth barhau â'u haddysg neu hyfforddiant yn hynod bwysig. Nid yn unig y mae'n cynnig cyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ond gall hefyd ddylanwadu ar ganfyddiad unigolion o bwysigrwydd yr iaith yng nghyd-destun y gweithle yng Nghymru. Yn ei waith ym maes addysg drydyddol a sgiliau, anogwn y Pwyllgor i ganolbwyntio ar:

- rôl Medr yn cynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o hyn dylid rhoi sylw penodol i ddatblygiad cynllun cenedlaethol Medr i'r Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol, a sut mae Medr yn defnyddio'i bwerau rheoleiddio a chyllido er mwyn sicrhau gwelliannau yn y ffordd mae addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynllunio a'i ddarparu
- sut mae'r sector yn blaenoriaethu meysydd a sectorau pwysig o safbwynt y Gymraeg, gan alinio llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn pwysleisio gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle
- gynlluniau ar gyfer cynyddu capasiti'r gweithlu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg
- ehangu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- drefniadau cydweithio a sefydlu partneriaethau strategol rhwng sefydliadau ôl-16 ac ysgolion

Er efallai nad yw o reidrwydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor, byddem yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n caffael y Gymraeg drwy'r system addysg yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol, diwylliannol chwaraeon, ac wrth ddefnyddio technoleg a chyfryngau digidol. Mae'n hollbwysig felly bod materion sy'n ymwneud ag addysg a'r Gymraeg yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun polisi ehangach y Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, byddem yn eich annog i ystyried cyfleoedd i gydweithio â chyd-gynllunio eich gwaith gyda phwyllgorau eraill perthnasol y Senedd, ac yn benodol Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod o ddefnydd wrth i chi gynllunio gwaith y pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw a byddwn yn falch o gyfrannu ato.

Yn gywir

**Efa Gruffudd Jones**

Comisiynydd y Gymraeg